# Ysgrifennu Traethodau

## Cyflwyniad

Dylai hyn ganolbwyntio ar fanylion penodol y cwestiwn a dangos yn glir bod yr awdur yn gwybod am rai enwau allweddol perthnasol (nid rhestr) ac y caiff y ddamcaniaeth neu'r esboniad ei werthuso.

## Prif gorff

Dylai hyn bob amser ddechrau gyda'r ddamcaniaeth neu'r esboniad yn y cwestiwn.

Dylai pob paragraff wneud y canlynol:

- gwneud pwynt
- ategu'r pwynt gan ddefnyddio tystiolaeth
- gwerthuso'r pwynt
- dychwelyd at yr honiad/pwynt a wnaed ar y dechrau.

Dylid cysylltu paragraffau â'r paragraff blaenorol ar y dechrau drwy ddefnyddio geiriau/ymadroddion cyswllt megis 'i'r gwrthwyneb'...'neu fel arall'...

## Gwerthuso

Dylai fod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae geiriau/ymadroddion megis 'fodd bynnag', 'ond', 'ar y llaw arall', 'i'r gwrthwyneb', 'fel arall', 'ategir hyn gan' ac ati yn ddefnyddiol.

## Casgliad

Dylai'r casgliad dynnu eich dadleuon ynghyd. Nid oes angen unrhyw wybodaeth newydd mewn casgliad. Fodd bynnag, dylai gyfeirio nôl at y cwestiwn.

Rhaid i bob ateb gyfeirio at dystiolaeth i ategu'r honiadau a wneir a defnyddio cysyniadau perthnasol.

Pwyntiau i'w cofio:

1. Pa bryd bynnag y byddwch yn ysgrifennu traethodau, ewch drwyddo gan amlygu'r holl eiriau ac ymadroddion gwerthusol a ddefnyddiwyd gennych. Drwy wneud hynny, cewch syniad p'un a ydych yn llwyddo i gynnal y gwerthusiad drwy gydol y traethawd ai peidio. Efallai y bydd angen i chi ddychwelyd at y traethawd ac ailysgrifennu adrannau.
2. Ewch drwy'r traethawd a thanlinellwch enwau'r holl gymdeithasegwyr perthnasol a ddefnyddiwyd gennych.

**Noder**

Peidiwch â gwneud hyn yn yr arholiad, bydd yr arholwr yn penderfynu pwy a beth sy'n berthnasol.

Gofynnwch i chi'ch hun ai dim ond enwi'r person rydych wedi'i wneud neu a ydych wedi egluro beth y mae'n ei ddweud sy'n berthnasol i'r pwynt rydych chi'n ei wneud.

© WJEC CBAC LTD 2017

3. Yn olaf, ewch drwy'r traethawd ac mewn pen lliw gwahanol, tanlinellwch y cysyniadau a ddefnyddiwyd gennych.

**Noder**

Gofynnwch i chi'ch hun a ydych wedi nodi eich dealltwriaeth o'r cysyniad yn glir.

© WJEC CBAC LTD 2017